

CYNLLUN GWEITHREDU BIOAMRYWIAETH LLEOL SIR GAERFYRDDIN CYNLLUN GWEITHREDU AR GYFER BRITHRIBINAU BROWN

Cyflwyniad

Mae'r brithribin brown (*Thecla betulae* - Brown hairstreak) yn löyn byw anodd iawn ei weld sy'n byw bron yn llwyr ym mrig y coed. Yn sgil hynny prin y'i gwelir heb ysbieddrych, binocwlars, neu dipyn o lwc. Fodd bynnag mae'r oedolion yn ehedeg rhwng diwedd Gorffennaf a dechrau Hydref, ond fel rheol y benywod yn unig a welir yn hedfan yn isel a hynny fel arfer wrth ddodwy eu hwyau ar flaen dyfiant llwyni drain duon yn ystod Awst neu Fedi. Yn ymarferol y ffordd hawsaf o wybod a oes brithribinau brown yn bresennol yw chwilio am y wyau gwyn, sydd tua maint clopa pin, ar flaen dyfiant drain duon yn y gaeaf ar ôl i'r dail ddisgyn. Yn ffordus mae'r wyau'n cael eu dodwy'n is na 5 troedfedd (1.5 metr) uwchlaw'r ddaear.



Ar ôl ymddangos tua chanol/diwedd yr haf, mae'r gwrywod a'r benywod yn dod at ei gilydd mewn 'coed crynhoi', sef coed ynn gan amlaf, mewn pantiau cysgodol lle maent yn paru. Yna mae'r benywod yn mynd ar wasgar i'r ardaloedd cyfagos, weithiau am hyd at 25 o gilometrau, lle maent yn chwilio am flaen dyfiant drain duon i ddodwy eu hwyau, a hynny gan amlaf un ar y tro, er y gellir dod o hyd i fwy nag un wy ar yr un brigyn. Mae'n well gan y benywod ddodwy eu hwyau ar dyfiant 1-4 oed, a gwelwyd bod poblogaethau'n cyrraedd eu hanterth 3 blynedd ar ôl i berthi gael eu tocio ddiwethaf. Mae'r larfâu'n ymddangos ddiwedd Ebrill a dechrau Mai gan fwydo ar y cychwyn ar flagur ac yna ar y dail newydd, a hynny liw nos yn bennaf. Ym Mehefin neu ddechrau Gorffennaf, mae lliw'r larfâu'n tywyllu ac maent yn ymlusgo i'r ddaear i chwilio am lecynnau i droi'n chwilerod. Ar ffurf chwilerod mae'r rhywogaeth hon yn ôl pob golwg yn atyniadol iawn i forgrug. Er bod y morgrug yn eu hamddiffyn mae llawer o'r chwilerod yn cael eu bwyta, yn enwedig gan famaliaid bychain.

Hoff gynefin y rhywogaeth hon yw manau lle mae digonedd o ddrain duon yn cael tyfu'n rhwydd. Gallai hynny fod mewn perthi, mewn prysglwyni, ar gyrion coetiroedd neu mewn llenyrch, a hynny'n fynych mewn llecynnau isel lle mae pridd trwm, ar orlifdiroedd neu ar waelod cymoedd lle mae afonydd wedi cyrraedd cyfnod canol neu gyfnod olaf eu taith. Mae'r rhywogaeth yn gallu ffynnu mewn caeau bychain sydd wedi eu hamgylchynu gan berthi, a lle mae coed neu goedlannau hwnt ac yma sy'n cynnwys 'coed crynhoi' addas. I oroesi mae ar boblogaeth angen llawer iawn o flaen dyfiant drain duon heb ei docio bob blwyddyn. Tuedda'r nythfeydd i fod yn fach, ond yn fynych maent wedi eu gwasgaru dros ardal eang. Mae canolbwynt y rhan fwyaf o'r poblogaethau ar dir sy'n is na 350 o droedfeddi (100 metr) uwchlaw'r môr, a phrin yw'r wyau a ddarganfyddir ar dir sy'n uwch na 500 troedfedd (150 o fetrau).

Yn Sir Gaerfyrddin y mae tua 60% o'r safleoedd a gofnodwyd yn ddiweddar (ers 1995) yng Nghymru. Mae ei gynefin gwybyddus yn rhedeg yn fras i'r gogledd o linell priffordd yr A40, gyda llond dwrn o safleoedd damaid i'r de, yn bennaf yn nyffryn Tywi. Cynhaliwyd arolygon o bresenoldeb y Brithribin Brown bob blwyddyn am gyfnod o 15 mlynedd, o 2001 i 2014, gan wirfoddolwyr Cadwraeth Glöynnod Byw drwy gyfuniad o chwilio mewn ardaloedd newydd a monitro safleoedd allweddol yn rheolaidd. Yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, crebachodd y cynefin yn sylweddol yn yr hyn a arferai fod yn brif ardal enfawr o iseldir o Hendy-gwyn ar Daf, drwy Gaerfyrddin, dyffrynnoedd Tywi a Chothi, i'r de o linell o Lanboidy, Alltwalis, Llansawel a Chilycwm. Amcangyfrifir bod 95% o'r holl gloddiau yn yr ardal hon bellach yn cael eu ffustio yn flynyddol. I'r gogledd o gribyn Alltwalis, yn nyffryn Teifi a dyffrynnoedd ei hisafonydd, ymddengys bod y rhywogaeth yn ffynnu ar y cyfan, bron yn sicr yn rhannol o

leiaf yn sgil arfer llai cyffredin (er bod yr arfer ar gynydd) o ffustio pob clawdd fferm yn flynyddol.

Yn ddiamheuaeth, credir mai'r ffactor pennaf sy'n effeithio ar y rhywogaeth yw'r arfer flynyddol o ffustio cloddiau yn fecanyddol – er bod gwaredu cloddiau fel ffiniau caeau, gordocio twf ifanc a chrachgoed oddi mewn i ffiniau caeau, newidiadau i arferion rheoli coetiroedd, gan gynnwys colli cynefin ar ymyl coetiroedd, ac esgeuluso dryslwyni a thwf hŷn, hefyd yn ffactorau. Gall y tywydd ac ysglyfaethu effeithio ar boblogaethau blynyddol.

Serch hynny, mae sawl safle allweddol yn destun camau rheoli cadwraeth rheolaidd, ond cyfyngedig, ar gyfer y rhywogaeth ac mae'r canlyniadau (a fesurir gan ddefnyddio mynegai wyau fesul metr o gynefin) yn gyson a rheolaidd well na'r hyn a welir yn y safleoedd a fonitrir nas rheolir, gan ffactor o hyd at bump i un.

Mae'r awdurdod cynllunio lleol, fel rhan o'i gyfrifoldebau statudol/polisi, yn mynnu y cynhelir arolygon mewn perthynas â chynllunio/penderfynu ar unrhyw gynllun/prosiect a allai effeithio ar frithribinau brown.

Datganiad o Weledigaeth ac Amcanion

Y weledigaeth yn Sir Gaerfyrddin yw cryfhau'r poblogaethau sy'n weddill a chynyddu dosbarthiad rheolaidd y rhywogaeth (er mwyn cwmpasu ei dosbarthiad naturiol unwaith eto), a hynny drwy gydweithio â pherchenogion/rheolwyr tir er mwyn dwyn perswâd arnynt i addasu eu dulliau rheoli perthi/prysglwyni fel bo'r trefniadau rheoli gorau posibl ar gael ar gyfer y rhywogaeth. Bydd unrhyw gamau gweithredu yn ceisio cyflawni un neu ragor o'r amcanion canlynol

BHS1 Cynnal a chynyddu niferoedd a dosbarthiad brithribinau brown yn Sir Gaerfyrddin

BHS2 Dal i arolygu a monitro dosbarthiad a statws brithribinau brown yn Sir Gaerfyrddin

BHS3 Cynyddu ymwybyddiaeth o bresenoldeb brithribinau brown yn Sir Gaerfyrddin, ac o bwysigrwydd eu cynefin a rheolaeth briodol


Crynodeb o'r camau gweithredu a gyflawnwyd gan Bartneriaid y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (i gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r swyddog bioamrywiaeth – Bioamrywiaeth@sirgar.gov.uk neu ewch i wefan y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth - <http://ukbars.defra.gov.uk>):

2010–12

- Lluniwyd cytundebau gyda pherchenogion tir – Gwarchod Glöynnod Byw BHS1
- Cynhaliwyd cynlluniau (7?) i reoli perthi/prysglwyni mewn modd priodol ac i osod pyst nodi - Gwarchod Glöynnod Byw BHS1
- Llunnir mapiau, sy'n cael eu diweddar'u flynyddol, o hynt brithribinau brown yn y sir - Gwarchod Glöynnod Byw BHS2
- Ysgrifennwyd erthygl ar gyfer *Natur Cymru* a'r wasg leol am frithribinau brown yn y sir - Gwarchod Glöynnod Byw BHS3
- Cafodd trawsluniau brithribinau brown eu monitro'n flynyddol ac yn chwemisol - Gwarchod Glöynnod Byw BHS2
- Cynhaliwyd arolygon o safleoedd newydd bob blwyddyn er mwyn chwilio am frithribinau brown - Gwarchod Glöynnod Byw BHS2
- Lluniwyd arweiniad ynghylch rheoli perthi ar gyfer brithribinau brown, a'i ddsbarthu - Gwarchod Glöynnod Byw BHS2

- Trefnwyd digwyddiadau i'r cyhoedd er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o frithribinau brown - Gwarchod Glöynnod Byw BHS3
- Gosodwyd paneli gwybodaeth yn yr Amgueddfa Plentynod, Llangeler - Gwarchod Glöynnod Byw BHS3
- 2013**
- Cyflwyniad wedi'i roi i weithdy ledled y DU ynghylch y prosiect brithribinau brown yn Sir Gaerfyrddin – Gwarchod Glöynnod Byw BHS3
- Gwaredu mieri o amgylch drain du yng Nghwmhuden - Gwarchod Glöynnod Byw / Gwirfoddolwyr BHS1
- Bôn-docio drain du yng Nghae Bach Penffynnon – Gwarchod Glöynnod Byw / Gwirfoddolwyr BHS1
- Trawsluniau brithribinau brown wedi eu monitro'n flynyddol ac yn chwemisol - Gwarchod Glöynnod Byw BHS2
- Arolwg o 19 o safleoedd newydd lle mae'r brithribin brown, ac roedd wyau ym 5 ohonynt – Gwarchod Glöynnod Byw / Gwirfoddolwyr BHS2
- Arolygon o lindys/oedolion wedi eu cynnal ar safleoedd allweddol – Gwarchod Glöynnod Byw / Gwirfoddolwyr BHS2
- Eitem ar raglen 'Country Focus' Radio Wales - Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru BHS3
- 2014**
- Cynhaliwyd arolygon blynyddol / hanner blynyddol o wyau'r rhywogaeth ar hyd 20 trawslun – Gwarchod Glöynnod Byw / Gwirfoddolwyr
- Archwiliwyd 30 o safleoedd eraill - Gwarchod Glöynnod Byw / Gwirfoddolwyr
- Treuliodd y gwirfoddolwyr gyfanswm o ryw 200 o ddiwrnodau yn archwilio safleoedd / gwneud gwaith – Gwarchod Glöynnod Byw / Gwirfoddolwyr
- Chwiliwyd am wyau ar safleoedd newydd – ychwanegwyd 4 sgwâr 1 cilometr newydd – Gwarchod Glöynnod Byw / Gwirfoddolwyr
- Gwnaed gwaith rheoli drain duon ar dir Fferm Cwmduhén a Phenffynnon – Gwarchod Glöynnod Byw
- Plannwyd perth 270 o fetrau o hyd ar safle pwysig iawn i frithribinau brown yn Nyffryn Tywi ynghyd â gwneud cytundeb rheoli yn ei gylch – Gwarchod Glöynnod Byw
- 2015**
- Arolygon trawslun blynyddol/chwemisol o wyau; 20 trawslun – CadGlöyn/Gwirf BHS2
- Arolygon o 15 safle arall – CadGlöyn /Gwirf BHS2
- Gwerth tua 133 diwrnod o amser gwirfoddol ar gyfer arolygon / criwiau gwaith (2014/15) – CadGlöyn /Gwirf BHS2
- Gwaith rheoli'r ddraenen ddu yn Fferm Cwmduhén a Phenffynnon – CadGlöyn BHS1
- Camau arfaethedig i'r dyfodol**
- Rheoli cynefin mewn 5 safle allweddol – CadGlöyn BHS1
- Y camau arfaethedig yn y dyfodol**
- Cydweithio â Rheilffordd Gwili o ran rheoli cynefinoedd ar gyfer brithribinau brown – Gwarchod Glöynnod Byw BHS1
- Cynnal arolygon o safleoedd newydd bob blwyddyn er mwyn ceisio dod o hyd i ragor o frithribinau brown - Gwarchod Glöynnod Byw BHS2
- Dal i gynnal arolygon o drawslluniau - Gwarchod Glöynnod Byw BHS2
- Dolenni defnyddiol:**
- Yr Ymddiriedolaethau Natur – [brown hairstreak butterfly](#)
- Gwarchod Glöynnod Byw – [brown hairstreak butterfly](#)

Cofnodion brithribinau brown 2000-12.



Partneriaeth **Bioamrywiaeth** Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire **Biodiversity** Partnership

www.carmarthenshirebiodiversity.co.uk

[Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin](#) Mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin yn cynnwys y sefydliadau canlynol: [Cyngor Sir Gaerfyrddin](#), [Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru](#), [Cyfoeth Naturiol Cymru](#), [Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar](#), [Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir](#), Clwb Adar Sir Gaerfyrddin, [Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru](#), [Gwarchod Glöynnod Byw](#), [Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin](#), [Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol](#), [Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain](#), [Naturiaethwyr Llanelli](#), [Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod](#), [Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru](#), [Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid](#)